Estyn



# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Dyffryn Ardudwy

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2023**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Ysgol Dyffryn Ardudwy yn ysgol hapus a chroesawgar sy'n blaenoriaethu lles disgyblion a staff yn dda. Mae naws gynhwysol yr ysgol yn cefnogi bron bob disgybl i ymddwyn yn arbennig o dda ac i ddangos parch a gofal am eraill. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn falch iawn o'u hysgol ac yn ymroi'n llawn i brofiadau dysgu a chwarae. Mae ganddynt wir ddiddordeb yn eu dysgu, ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd priodol yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Er hyn, prin yw'r cyfleoedd iddynt arwain eu dysgu'u hunain yn gwbl annibynnol.

Ers ei phenodiad yn lled ddiweddar, mae'r pennaeth wedi adeiladu ar yr ethos tîm sy'n bodoli ar draws yr ysgol. Mae hi wedi mynd ati'n egnïol i wella ansawdd yr amgylchedd dysgu a'r ystod o gyfleoedd sydd ar gael i ddisgyblion. O ganlyniad, maent yn ymgymryd ag ystod dda o brofiadau dysgu buddiol, gan gynnwys cystadlu mewn cystadlaethau amrywiol a chydweithio ag arbenigwyr prosiect digidol difyr. Er hyn, nid yw prosesau hunanwerthuso'r ysgol yn ddigon miniog i ddylanwadu'n ddigon effeithiol ar y dysgu a'r addysgu.

Mae gan y staff berthynas waith effeithiol â'r disgyblion ac maent yn cefnogi eu medrau Cymraeg yn llwyddiannus. Yn gyffredinol, mae'r staff yn holi ac yn cefnogi'r disgyblion i ddwysáu eu dealltwriaeth a datblygu eu medrau yn fuddiol. Er hyn, mae athrawon yn dueddol i or-gyfarwyddo'r dysgu sy'n llesteirio gallu disgyblion i arwain eu dysgu eu hunain. Yn ogystal, nid yw'r profiadau dysgu yn cynnig digon o her a chyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu gwybodaeth, dealltwriaeth a'u medrau ar draws y cwricwlwm yn ddigon cyson.

# Argymhellion

A1 Gwella'r addysgu er mwyn herio'r disgyblion yn effeithiol a datblygu eu medrau dysgu annibynnol

A2 Sicrhau cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso'u medrau ysgrifennu a rhifedd ar draws y cwricwlwm

A3 Mireinio prosesau hunanwerthuso er mwyn sicrhau gwelliannau yn y dysgu ac addysgu

# Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn cydweithio â'r awdurdod lleol i adolygu cynnydd yr ysgol. Dyma'r gweithgarwch dilynol ysgafnaf, gan nad yw'n statudol.



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Dyffryn Ardudwy |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 83 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 69 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 7 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 11.9% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 14.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 23.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2022 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | Medi 2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 27/03/2023 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 05/06/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.